# Loop treatment (or Large loop excision of the transformation zone (LLETZ))

**What is the treatment?**
This is a treatment for cell changes on the cervix. It usually happens in the colposcopy clinic and a local anaesthetic injection is used.
The treatment removes an area of cell changes using a small wire loop. The wire has electricity running through it. The means that the wire is hot, so it can cut quickly, but also stop any bleeding. The area removed is sent to the laboratory to look at the cell changes and to make sure no more treatment is needed.

**Where is the treatment done?**
Usually in the colposcopy clinic, although some women may have treatment under a general anaesthetic (while they are asleep).

**How long does the treatment take?**
It usually takes about 15-20 minutes.

**Who does the treatment?**
A specially trained doctor or nurse, called a colposcopist.

**What happens during the treatment?**
- The colposcopist will look at your cervix, to see the area to be treated
- Some anaesthetic is injected into your cervix, the same as is used at the dentist
- A sticky pad will be put onto your leg to collect the electricity
- A wire loop is used to remove the cells, then some more electricity is used to stop any bleeding and to make a scab

**What will I feel?**
The anaesthetic can sting a little at first, but then your cervix should be numb. You might still feel some moving and pressing.

**What happens afterwards?**
- You should rest and not lift anything for 24 hours after the treatment
- Light bleeding or discharge is common for 3-4 weeks
- Don't have sex, use tampons, go swimming or have long baths for 4 weeks after treatment
- You will usually have a smear test 6 months afterwards

**What are the risks of treatment?**
- **Infection** can cause discharge, heavy bleeding, tummy pains or generally feeling unwell. If this happens you should contact your GP, or the clinic
- Women who have a large area removed, or who have more than one treatment, can have an increased chance of having a baby born early if they get pregnant after treatment. If you are worried, talk to your colposcopist
- Some women may need a second treatment if certain cell changes are found, or if they have not been fully removed

**How do I contact my colposcopy clinic?**
The details are below. We welcome correspondence and phone calls in Welsh. We will respond to correspondence in Welsh without delay.
The telephone number for the Colposcopy clinic is **01639 862114/862338**.

# Triniaeth dolen (neu Doriad dolen mawr yn yr ardal drawsnewid (LLETZ))

**Beth yw'r driniaeth?**
Triniaeth yw hon ar gyfer newidiadau i gelloedd ceg y groth. Mae fel arfer yn digwydd yn y clinig colposgopi a defnyddir anesthetig lleol.
Mae'r driniaeth yn tynnu ardal o newidiadau i gelloedd gan ddefnyddio dolen wifren fach. Mae trydan yn cael ei gludo drwy'r wifren. Mae hyn yn golygu bod y wifren yn boeth, er mwyn gallu torri'n gyflym, ond hefyd er mwyn atal unrhyw waedu. Mae'r ardal sy'n cael ei thynnu yn cael ei hanfon i labordy i edrych ar y newidiadau i'r celloedd ac i wneud yn siŵr nad oes angen unrhyw driniaeth bellach.

**Ble mae'r driniaeth yn cael ei chynnal?**
Fel arfer yn y clinig colposgopi, er y gallai rhai menywod gael y driniaeth o dan anesthetig cyffredinol (tra byddant yn cysgu).

**Beth yw hyd y driniaeth?**
Mae'n cymryd tua 15-20 munud fel arfer.

**Pwy sy'n gwneud y driniaeth?**
Meddyg neu nyrs wed eu hyfforddi'n arbennig, a elwir yn colposgopydd.

**Beth sy'n digwydd yn ystod y driniaeth?**
- Bydd y colposgopydd yn edrych ar geg y groth, i weld yr ardal i'w thrin
- Bydd rhywfaint o anesthetig yn cael ei chwistrellu i geg y groth, i'w gwneud yn ddideimlad, dyma'r un math a ddefnyddir gan ddeintydd
- Rhoddir pad gludiog ar eich coes i gasglu'r trydan
- Defnyddir gwifren ddolen i gael gwared ar y celloedd, yna defnyddir mwy o drydan i atal unrhyw waedu ac i greu crachen.

**Beth fyddaf yn ei deimlo?**
Gall yr anesthetig bigo ychydig i ddechrau, ond yna dylai ceg y groth fod yn ddideimlad. Efallai byddwch yn parhau i deimlo rhywfaint o symud a phwyso.

**Beth sy'n digwydd wedyn?**
- Dylech orffwys a pheidio â chodi unrhyw beth am 24 awr ar ôl y driniaeth
- Mae gwaedu ysgafn neu redlif dyfrllyd yn gyffredin am 3-4 wythnos
- Ni ddylech gael rhyw, defnyddio tampon, nofio na chael bath hir am 4 wythnos yn dilyn y driniaeth
- Byddwch yn cael prawf ceg y groth 6 mis wedi hynny fel arfer

**Beth yw peryglon y driniaeth?**
- Gall **haint** achosi rhedlif, gwaedu trwm, poenau yn y stumog neu deimlo'n anhwylus yn gyffredinol. Os bydd hyn yn digwydd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu'r clinig
- Bydd menywod sy'n cael ardal fawr wedi ei thynnu, neu sy'n cael mwy nac un driniaeth, yn wynebu mwy o siawns o fabi'n cael ei eni'n gynnar pe byddent yn beichiogi ar ôl y driniaeth. Os ydych yn bryderus, siaradwch â'ch colposgopydd
- Efallai bydd angen ail driniaeth ar rai menywod os canfyddir newidiadau penodol i gelloedd, neu os nad ydynt wedi eu gwaredu'n llwyr

**Sut wyf yn cysylltu â'r clinig colposgopi?**
Mae'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg yn ddi-oed.
Rhif ffôn y clinig Colposgopi yw **01639 862114/862338**.